28ain Ionawr 2020

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 4ydd Chwefror 2020 am 6.00 o'r gloch yr hwyr yn Siambr y Cyngor, Adeilad yr Institiwt, Caernarfon i drafod materion ar y Rhaglen a ganlyn:-

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

Siaradwyr Gwadd:

- **6.00 p.m. – Cyflwyniad gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad) Cyngor Gwynedd - Cynlluniau Traffont/ Fly Over Caernarfon.**
- **7.00 p.m. - Yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 7fed o Ionawr, gwahoddiad i Jon Aspinall, Arolygydd, Heddlu Gogledd Cymru – trafod y problemau diweddar o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Nghaernarfon**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

3. **Datgan Buddiant Personol**

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 7 Ionawr 2020 (A**todiad Gwyrdd**)
ii) Pwyllgor Personél 13 Ionawr 2020 (**Atodiad Pinc) (eitem eithriedig)**
iii) Is Bwyllgor Adloniant 14 Ionawr 2020 **(Atodiad Glas)**
iv) Pwyllgor Gwaith 21 Ionawr 2020 **(Atodiad Melyn)**
v) Pwyllgor Cyllid 23 Ionawr 2020 (**Atodiad Pinc**) **(eitem eithriedig)** ***(yng nghefn y rhaglen)***

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

7. **Cysoni cyfrifon**

8. **Maerolaeth**

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2020– 2021

9. **Enwebiadau ar Gyrff Llywodraethol Ysgolion**

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Y Gelli.

10. Clwb Ieuenctid Caernarfon

Cyflwyno adroddiad ar y gweithgareddau yng Nghlwb Ieuenctid Caernarfon.

11. Adeilad yr Institiwt

To submit an oral report from the Clerk on the Institute Building.

12. Cofeb Rhyfel Capel Ebenezer

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc ar yr uchod.

13. Deddf Cynllunio Gwald a Thref 1990 – Gorchymyn Cau Priffyrdd (tir i'r de ddwyrain o Lôn Cae Darbi, Stâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon

Cyflwyno copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad Cyhoeddus.

14. Gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio ac ymgysylltiad Cynghorau Tref a Chymuned â'r system gynllunio

Cyflwyno adroddiad ar gyflwyniad fu gymryd lle yn Llandudno ar y 24ain o Ionawr.

15. Makaton

Cyflwyno cais gan Ceri Bostock i ddod gerbron y Cyngor i esbonio sut gall Caernarfon ddod yn Dref Makaton.

16. Gohebiaeth Amrywiol

Cyflwyno, er gwybodaeth, ohebiaeth o ran y canlynol (copïau i'w dosbarthu ar y bwrdd):

- Cymdeithas Eryri
- Diwrnod Rhyngwladol y Ferch 2020
- "Up Hill Down Dale - Snowdonia Slate Trail"

17. Rhybuddion o Gynnig

(i) Calendr Cyfarfodydd

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Eleri Lovgreen:

"Ein bod yn argraffu Calendrau sy'n cyd-redeg efo blwyddyn y Cyngor, hynny ydi o fis Mai i fis Mai. Byddai hynny'n golygu bod holl gyfarfodydd y flwyddyn yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau blwyddyn newydd."

(ii) Taith Llynedd i Iwerddon

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Maria Sarnacki:

"A allwn i gynnig ein bod unwaith eto yn codi item am greu pwyllgor i drafod canlyniad taith y llynedd i Iwerddon? Mae'n fy mhoeni ein bod yn gadael hyn fynd. Mae hyn wedi'i ysgogi gan stori a welais yn y "Daily Post" am Gaer Rufeinig Segontium, a rhai adolygiadau a welais ar Trip Advisor oedd yn negyddol iawn."

18.Cwestiynau